



## ***PWYLLGOR CRAFFU STRYDLUN A PHEIRIANNEG***

***10.00 AM DYDD GWENER, 22 IONAWR 2021***

***O BELL TRWY TEAMS***

**Rhaid gosod pob ffôn symudol ar y modd distaw ar gyfer parhad y cyfarfod**

### **Rhan 1**

1. Croeso a galw'r rhestr
2. Cyhoeddiad y Cadeirydd
3. Datganiadau o fuddiannau
4. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol (*Tudalennau 5 - 18*)
  - 22 Gorffennaf 2020
  - 20 Tachwedd 2020
5. Isadeiledd Cerbydau Trydan Castell-nedd Port Talbot, Cynlluniau Gweithredu a Throsolwg o'r Strategaeth Gwefru Cyhoeddus ehangach yn y fwrdeistref sirol (*Tudalennau 19 - 28*)
6. Ymgynghori ar Gynigion Cyllidebol Strydlun a Pheirianneg 2021/22 (*Tudalennau 29 - 42*)
7. Craffu Cyn Penderfynu
  - Dewis eitemau priodol o agenda'r Cabinet ar gyfer craffu cyn penderfynu (amgaeir adroddiadau ar gyfer yr Aelodau Craffu)
8. Blaenraglen Waith 2020/21
9. Eitemau brys  
Unrhyw eitemau brys (boed yn gyhoeddus neu wedi'u heithrio) yn ol disgresiwn y Cadeirydd yn unol ag Adran 100B (4) (b) o Ddeddf

Llywodraeth Leol 1972.

**K.Jones**  
**Prif Weithredwr**

**Canolfan Ddinesig**  
**Port Talbot**

**Dydd Gwener, 15 Ionawr 2021**

**Aelodaeth y Pwyllgor:**

**Cadeirydd: S.M.Penry**

**Is-gadeirydd: R.W.Wood**

**Cynghorwyr:** A.R.Aubrey, C.Galsworthy, J.Hurley, D.Keogh,  
A.McGrath, C.J.Jones, W.F.Griffiths, R.Davies,  
J.Hale a/ac S.A.Knoyle

**Nodiadau:**

- (1) Os yw aelodau'r pwyllgor neu'r rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor am gynnig eitemau perthnasol i'w cynnwys ar yr agenda cyn cyfarfodydd y dyfodol, rhaid iddynt roi gwybod i'r Prif Weithredwr/Cadeirydd 8 niwrnod cyn y cyfarfod.*
- (2) Os yw'r rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor am fod yn bresennol ar gyfer eitem o ddiddordeb, mae'n rhaid rhoi rhybudd ymlaen llaw (erbyn 12 hanner dydd ar y diwrnod cyn y cyfarfod). Gall y rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor siarad ond nid oes ganddynt hawl i bleidleisio, cynnig nac eilio unrhyw gynnig.*
- (3) Fel arfer, ar gyfer trefniadau cyn craffu, bydd y Cadeirydd yn argymhell eitemau gweithredol sydd ar ddod i'w trafod/herio. Mae hefyd yn agored i aelodau'r pwyllgor ofyn i eitemau gael eu trafod - er y gofynnir i'r aelodau ddewis a dethol yma o ran materion pwysig.*
- (4) Gwahoddir aelodau perthnasol Bwrdd y Cabinet hefyd i fod yn bresennol yn y cyfarfod at ddibenion Craffu/Ymgynghori.*

(5) *Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Craffu ddod â'u papurau ar gyfer Bwrdd y Cabinet i'r cyfarfod.*

Mae'r dudalen hon yn fwriadol wag

## PWYLLGOR CRAFFU STRYDLUN A PHEIRIANNEG

(O Bell Trwy Teams)

Aelodau sy'n Bresennol:

Dydd Mercher, 22 Gorffennaf 2020

**Cadeirydd:** Cynghorydd S.M.Penry

**Is-gadeirydd:** Cynghorydd R.W.Wood

**Cynghorwyr:** A.R.Aubrey, C.Galsworthy, J.Hurley, D.Keogh,  
A.McGrath, W.F.Griffiths, R.Davies, J.Hale a/ac  
S.A.Knoyle

**Swyddogion sy'n  
Bresennol:** N.Pearce, M.Roberts, D.Griffiths, C.Furlow-  
Harris, S.Burgess, S.Blewett, C.Davies,  
T.Davies a/ac C.Plowman

---

### 1. STRATEGAETH ADFERIAD

Cyflwynwyd strategaeth ddrafft i'r Aelodau ar sefydlogi, y cyfnod rhwng ymateb ac adferiad, yn dilyn cychwyniad COVID-19. Roedd y strategaeth yn disgrifio fframwaith cyffredinol a fyddai'n cefnogi ymagwedd gyson a chydlynus wrth i'r cyngor symud tuag at adferiad. Nodwyd bod y strategaeth ddrafft yn cael ei chyflwyno i bob Pwyllgor Craffu ar gyfer sylwadau cyn ei chyflwyno i'r Cabinet ar 30 Gorffennaf 2020 i'w chymeradwyo.

Rhoddodd swyddogion drosolwg byr o gynnwys y strategaeth, gan esbonio ei bod wedi'i rhannu'n dair adran a oedd yn cynnwys edrych yn ôl ar yr hyn a wnaeth y cyngor yn ystod cyfnod ymateb yr argyfwng, edrych ymlaen wrth i'r DU symud allan o'r cyfnod ymateb a map ffyrdd o gamau gweithredu.

Wrth edrych yn ôl ar yr hyn a wnaeth y cyngor yn ystod y cyfnod ymateb, tynnwyd sylw at y ffaith bod nifer o gamau allweddol wedi'u cymryd, gan gynnwys sefydlu gwasanaeth cyfathrebu saith niwrnod yr wythnos fel y gellid anfon canllawiau gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru pan oeddent ar gael. Ychwanegwyd bod y cyngor wedi cau gwasanaethau i helpu i

leihau ymlediad y feirws ac wedi newid y ffordd yr oedd rhai gwasanaethau hanfodol yn gweithredu er mwyn gweithredu'n ddiogel, er enghraifft y gwasanaeth sbwriel. Soniodd swyddogion fod rhan gyntaf y strategaeth hefyd yn nodi'r newidiadau a wnaed mewn perthynas ag arweinyddiaeth a llywodraethu, gan gynnwys defnyddio'r ddarpariaeth Gweithredu Brys a nodir yn y Cyfansoddiad, i sicrhau bod penderfyniadau allweddol yn dal i gael eu gwneud yn ystod y cyfnod ymateb.

Esboniwyd ail ran y strategaeth i'r Aelodau, a oedd yn cynnwys edrych ymlaen wrth i'r DU symud allan o'r cyfnod ymateb i gyfnod sefydlogi, sef y cam cyn symud i'r cyfnod adfer. Esboniwyd bod tri maes wedi'u nodi fel ffocws wrth i'r cyngor symud ymlaen:

1. Y Rhaglen Profi, Orlhain a Diogelu
2. Sut mae gwasanaethau a swyddogaethau'r cyngor yn ymdopi
3. Deall ac ymateb i'r effaith y mae'r feirws wedi'i chael ar ddinasyddion, sefydliadau a busnesau ledled Castell-nedd Port Talbot

Ychwanegwyd bod yr ail ran hefyd yn nodi'r newidiadau y bu'n ofynnol eu gwneud o ran arweinyddiaeth a llywodraethu, yn ogystal â rhai o'r risgiau a'r materion a nodwyd y bydd angen eu rheoli wrth i'r cyngor fynd ati i roi'r strategaeth ar waith.

Cyflwynwyd trydedd ran y strategaeth fel map ffyrdd o gamau gweithredu a oedd wedi'i fframio ar sail system goleuadau traffig, a oedd yn nodi sut i symud o sefyllfa o gyfyngiadau symud llwyr, drwy'r system goleuadau traffig, i sefyllfa lle mae gwasanaethau'n gweithredu unwaith eto. Nodwyd bod nifer o wasanaethau ar y map ffyrdd yn dod o fewn cylch gwaith Pwyllgor Craffu'r Strydlun a Pheirianeg gan gynnwys trafniadaeth, ffioedd parcio, gorfodi parcio a sbwriel ac ailgylchu.

Gofynnodd yr Aelodau am ba hyd y byddai Ysbyty Maes Llandarcy yn ei le, ac atebwyd nad oedd Swyddogion yn gallu rhoi dyddiad penodol ar hyn o bryd, gan y byddent yn ymateb i Bolisi Llywodraeth Cymru pan gaiff ei gyhoeddi. Fodd bynnag, roedd y contract cychwynnol a oedd gan y Bwrdd Iechyd â pherchennog y tir yn rhedeg hyd at fis Medi gyda darpariaethau ar waith i ymestyn hyd y contract pe bai angen. Soniwyd bod yr ysbyty'n gallu gweithredu, ond nad oedd wedi gweithredu hyd yma.

Gofynnwyd i swyddogion pam y tynnwyd y Cydlynwyr Ardal Leol (CALI) o'u rolau yn y Gwasanaeth 'Safe and Well', ac i ble yr aethant yn dilyn hyn. Nodwyd bod y CALI wedi mynd yn ôl i'r Gwasanaethau Cymdeithasol i helpu'r gyfarwyddiaeth i ymateb i'r pwysau cynyddol yno. O ran y rolau a gyflawnwyd gan CALI pan aethant yn ôl i'r gwasanaeth, cytunodd Swyddogion y byddent yn holi ynghylch hyn ac yn hysbysu'r Aelodau.

## 2. **GOFAL STRYDOEDD - CYNLLUNIO CYFLENWI AC ADFER GWASANAETHAU CYFREDOL**

Rhoddwyd trosolwg i'r Aelodau o sefyllfa bresennol y gwasanaethau yn y maes Gofal Strydoedd a sut roedd gwasanaethau'n cael eu darparu wrth i'r cyngor symud tuag at gyfnod adfer yr argyfwng coronafeirws.

Cyflwynodd swyddogion graff o absenoldeb sy'n gysylltiedig â COVID-19 ym maes gwasanaeth Gofal Strydoedd i'r pwyllgor, a gynhwysir yn Atodiad A yr adroddiad a ddosbarthwyd. Tynnwyd sylw at y ffaith ei bod hi'n ofynnol cofnodi a choladu absenoldebau sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn wythnosol, ac roedd Swyddogion wedi bod yn gwneud hynny ers 13 Mawrth 2020. Dangosodd y graff sut roedd absenoldebau COVID-19 wedi amrywio ac yn benodol, sut roedd cyfradd yr absenoldebau'n datblygu tua diwedd mis Mawrth, cyn i'r cyfyngiadau symud gael eu cyflwyno. Fel sy'n amlwg yn y graff, dywedwyd mai'r elfen fwyaf sy'n gysylltiedig ag absenoldebau COVID-19 ar gyfer Gofal Strydoedd oedd y rheini a oedd yn gwarchod, ac mae'r rhan fwyaf o absenoldebau bellach o ganlyniad i warchod. Fodd bynnag, nodwyd y disgwylir i'r adolygiad nesaf ar gyfer y rheini sy'n gwarchod gael ei gynnal ar 16 Awst 2020, gyda llythyrau'n cael eu hanfon yr wythnos cyn hynny, a fyddai'n rhoi gwell dealltwriaeth o'r effaith.

Yn dilyn hyn, cyflwynwyd sefyllfa darparu gwasanaethau Gofal Strydoedd i'r Pwyllgor, a gynhwysir yn Atodiad B o'r adroddiad a ddosbarthwyd, a oedd yn cwmpasu'r holl wasanaethau yng nghylch gwaith Gofal Strydoedd. Aeth swyddogion drwy rai o'r sylwadau ar y statws sydd ohoni yn fyr gan ddiweddarau'r Aelodau lle yn ôl yr angen.

O ran glanhau traethau, soniwyd bod y gwasanaeth yn gweithredu fel arfer, ond roedd rhagor o adnoddau'n cael eu defnyddio gan fod y gwasanaeth yn ceisio dal i fyny â chlirio gwastraff oherwydd bod mwy

o bobl yn ymweld â'r traeth ac nid oeddent yn cael gwared ar eu sbwriel.

Hysbyswyd yr Aelodau fod y canolfannau ailgylchu wedi agor ar 26 Mai 2020 a bod system archebu wedi'i chyflwyno lle gallai'r cyhoedd archebu slot amser o 15 munud i ollwng eu hailgylchu. Nodwyd bod y system yn gweithio'n dda iawn, a bod cynghorau eraill ledled Cymru yn ystyried cadw eu systemau archebu ar waith ar gyfer y dyfodol. Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith y gallai Cyngor Castell-nedd Port Talbot hefyd ystyried cadw eu system archebu.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y prosiect goleuadau stryd gwerth £1 miliwn yn mynd rhagddo, lle byddai rhagor o oleuadau LED yn cael eu cyflwyno yn lle'r goleuadau defnydd ynni uchel. Soniwyd bod y contract wedi dechrau yn ystod yr wythnos a ddechreuodd ar 13 Gorffennaf 2020 a bod y contractwr wedi dechrau cwblhau'r profion trydanol cyn dechrau gosod goleuadau newydd yn lle'r hen rai.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod casgliadau ailgylchu a gwastraff yn faes yr oedd y gwasanaeth Gofal Strydoedd wedi'i flaenoriaethu, gyda staff yn gweithio'n galed iawn dros gyfnod y cyfyngiadau symud i gadw'r gwasanaeth i fynd ac i ddelio â'r cynnydd mewn gwastraff ac ailgylchu a gynhyrchwyd.

Soniwyd bod storffeydd a phrynu wedi chwarae rhan bwysig wrth helpu gyda PPE ac offer, nid yn unig i Gyfarwyddiaeth yr Amgylchedd ond hefyd wrth gynorthwyo meysydd eraill ar draws y cyngor.

Esboniodd swyddogion fod mwy o bwysau wedi bod ar y gwasanaeth cynnal a chadw coed i docio coed a oedd wedi gordyfu ar hyd priffyrdd oherwydd bysus deulawr ychwanegol, gan fod llawer o'r llwybrau bysus unllawr wedi'u newid yn rhai bysus deulawr. Nodwyd y bu'n rhaid cwblhau llawer o waith mewn cyfnod byr o amser i wneud y llwybrau hynny'n ddiogel i'r cyhoedd.

Hysbyswyd yr Aelodau bod gorfodi gwastraff ar waith, ond bod oedi o 72 awr cyn agor bagiau gwastraff gan fod angen i'r broses bellach fod yn un llawer mwy pwylllog a gofalus oherwydd y feirws. Soniwyd hefyd, gan fod y cyhoedd wedi'i gwahardd rhag defnyddio adeiladau'r cyngor, nad oedd cyfweliadau PACE wedi'u cynnal. Fodd bynnag roedd y staff ar hyn o bryd yn edrych ar drefniadau i ddefnyddio'r cyfleusterau yng Nghanolfan Ddinesig Castell-nedd fel y gellid parhau â'r cyfweliadau.



O ran rheoli datblygiad systemau draenio tir a phriffyrdd, dywedwyd y byddai Mike Roberts a Dave Griffiths yn adolygu'r swyddogaeth gorfodi draenio tir i weld a fyddai'n well iddi fod yn rhan o'r isadran briffyrdd a draenio, er effeithlonrwydd. Nodwyd y byddai'r gweithdrefnau angenrheidiol yn cael eu cynnal yn dilyn yr adolygiad er mwyn i'r swyddogaeth symud pe bai angen.

Nodwyd mai'r brif broblem sy'n effeithio ar wasanaethau oedd y broblem 'tri mewn cab'; fe'i nodwyd mewn adroddiad am yr egwyddor rhagofal, ac fe'i newidiwyd fel na allai mwy na dau weithiwr fod mewn cab, gyda'r rhan fwyaf o gynghorau eraill yng Nghymru yn rhoi'r un gweithdrefnau ar waith. O ran casglu gwastraff, roedd hyn yn golygu bod angen i'r trydydd gweithiwr fod mewn cerbyd arall y dywedwyd ei fod wedi cael effaith sylweddol ar yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer meysydd gwasanaeth eraill; fodd bynnag, nodwyd mai'r ffactor cadarnhaol a gafwyd o hyn fu cynnal y gwasanaeth casglu gwastraff hanfodol, drwy gydol cyfnod y cyfyngiadau symud. Dywedodd Swyddogion, wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu codi ac wrth i fwy o wasanaethau ddechrau gweithredu eto, fod y galwadau ar adnoddau mewnol yn cynyddu gan olygu adnoddau cyfyngedig i rai meysydd gwasanaeth fel torri glaswellt, gwaredu deunydd sydd wedi'i dipio'n anghyfreithlon a chasglu sbwriel. I gloi, dywedodd Swyddogion eu bod wedi cysylltu â'r Undebau Llafur i gael gwybod a ellid rhoi tri gweithiwr mewn cab a fyddai'n lliniaru'r sefyllfa o ran adnoddau; fodd bynnag, dywedwyd mai sicrhau diogelwch staff oedd y ffactor pwysicaf, felly byddai angen adolygu asesiadau risg a mesurau lliniaru.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd y gwasanaeth wedi derbyn llawer o gwynion ynghylch triniaeth chwynladdwr, ac atebodd Swyddogion nad oeddent wedi cael llawer, ond eu bod wedi cael rhai ymholiadau yn gynharach yn y tymor, mewn perthynas â defnyddio plaladdwyr ac ymylon ffyrdd. Yn dilyn yr ymholiad ynghylch ymylon ffyrdd a sut cawsant eu rheoli, dywedodd Swyddogion eu bod yn cynnal trafodaethau â chydweithwyr yn y maes Cynllunio a Bioamrywiaeth ynghylch ehangu nifer yr ymylon ffyrdd a reolir gan fioamrywiaeth. Ychwanegwyd ei bod wedi mynd yn anos goruchwylio contractwyr a darparu adnoddau ar gyfer triniaeth chwynladdwr oherwydd y feirws.

Gofynnwyd i swyddogion a fyddai gweithwyr mewn canolfannau ailgylchu'n cael unrhyw fath o gysgod, yn dilyn arsylwadau nad oedd unman iddynt gysgodi rhag y glaw a'r tywydd oer ar hyn o bryd. Nodwyd bod y contractwr yn fodlon ar y trefniadau lles ar gyfer staff

drwy'r haf, ond y disgwyliid i gcontract newydd ddechrau ar 1 Hydref 2020 a oedd yn cynnwys bwth i weithwyr wrth fynedfa'r canolfannau.

Dangosodd yr Aelodau ddiddordeb mewn gweld y data o wastraff ac ailgylchu'r CDGC yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud. Soniwyd y bydd Aelodau'n derbyn ffigurau mewn adroddiad perfformiad chwarterol sydd ar ddod, a fydd yn dangos ffigurau gwastraff a'r effaith y mae COVID-19 wedi'i chael ar y ffigurau hynny. Dywedodd swyddogion eu bod yn ymwybodol bod COVID-19 wedi cael effaith ar y ffigurau ers mis Mawrth 2020, o edrych yn ôl ar ffigurau'r llynedd (2019/20) o'u cymharu â'r data yr oeddent wedi bod yn ei goladu'n ddiweddar. Ychwanegwyd y bydd yr adroddiad perfformiad chwarterol yn rhoi darlun cyffredinol yn ogystal â chyfle i ymchwilio i bob effaith unigol.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â gwastraff dillad a manteision aildefnyddio dillad drwy fynd â nhw i siopau neu ddefnyddio 'Cash for Clothes' yn lle ailgylchu. Soniwyd ei bod yn arbennig o bwysig lledaenu ymwybyddiaeth o fudd aildefnyddio gan y bu cynnydd yn nifer y bobl a oedd am gael gwared ar ddillad.

Yn dilyn craffu, cytunwyd i nodi'r adroddiad.

Diolchodd y Pwyllgor i'r gwasanaeth Gofal Strydoedd am eu holl waith caled yn ystod argyfwng COVID-19 a gofynnwyd i Mike Roberts, Pennaeth Gofal Strydoedd, drosglwyddo'r neges i'w dimau.

### **3. PEIRIANNEG A THRAFNIDIAETH - CYNLLUNIO CYFLENWI AC ADFER GWASANAETH CYFREDOL**

Darparwyd trosolwg i'r Aelodau o'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd ar draws y Gwasanaeth Peirianeg a Thrafnidiaeth, sut olwg fydd ar y gwasanaeth a sut bydd yn gweithredu wrth i'r cyngor symud i'r cyfnod adfer.

Ar draws y pum maes gwasanaeth, dywedwyd bod Rheoli Datblygu Priffyrdd (RhDP) a Chludiant Teithwyr a Chludiant o'r Cartref i'r Ysgol wedi'u galluogi'n llawn i barhau fel arfer yn effeithiol cyn belled â'u bod yn gallu delio â gohebiaeth a gweithrediadau beunyddiol, yn dilyn y cyhoeddiad am gau swyddfeydd.

O ran y tîm Rheoli Datblygu Priffyrdd, nodwyd eu bod wedi symud ymlaen gyda rhai ceisiadau cynllunio yr ymdriniwyd â hwy yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud, a bod pobl wedi bod yn araf i fanteisio ar wasanaeth ar-lein y SAB (Corff Cymeradwyo SuDs) a aeth yn fyw

yn gynharach eleni, ond bod gwaith bellach yn mynd rhagddo yn y maes hwnnw. Ychwanegwyd bod yr holl asesiadau risg ar waith ar gyfer ymweliadau safle angenrheidiol er mwyn galluogi ceisiadau SAB i symud ymlaen.

Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith bod staff, yn enwedig y tîm Adeileddau, wedi bod yn rhan fawr o'r ymateb i'r tair storm fawr ddiweddar, gan gynnwys storm Dennis. Yn dilyn hyn, cynhaliwyd llawer iawn o archwiliadau ar adeileddau a phontydd Castell-nedd Port Talbot. Nodwyd bod difrod saernïol yn effeithio'n fawr un bont ym Mlaengwrach, ond yn dilyn cefnogaeth y Cabinet ar gyfer y bont newydd i'w gosod yno, roedd y bont newydd bellach yn cael ei saernïo, ac roedd gwaith wedi cychwyn er mwyn ei chwblhau erbyn diwedd yr haf.

Esboniwyd i'r Aelodau fod canlyniadau COVID-19 wedi effeithio ar rai meysydd o Ddiogelwch Ffyrdd a Pherfformiad Busnes, yn bennaf oherwydd cau ysgolion. Dywedodd swyddogion fod llawer o'r rhaglenni hyfforddi wedi'u gohirio a bod yn rhaid i staff ailfeddwl sut y gallent symud ymlaen gyda'r rhaglenni; fodd bynnag, roedd rhaglenni bellach yn cael eu datblygu a fyddai'n cael eu darparu ar-lein drwy'r hwb, a byddai sgysiau ystafelloedd dosbarth yn cael eu cwblhau drwy dechnoleg byrddau gwyn drwy Microsoft Teams. Diolchodd Dave Griffiths, y Pennaeth Peirianeg a Thrafnidiaeth, i'w cysylltiadau ag Addysg a TG, gan eu bod wedi helpu i gynnal rhaglenni hyfforddi pwysig i bobl ifanc.

Hysbyswyd yr Aelodau am y cynllun beicio i'r gwaith newydd a lanswyd ar ddechrau mis Gorffennaf, lle'r oedd y nifer a fanteisiodd arno wedi bod yn dda iawn. Soniwyd bod tua 73 o bobl wedi achub ar y cyfle i brynu beiciau drwy'r cynllun (archebwyd 33 o feiciau trydan a thros 40 o feiciau traddodiadol) gydag Aelodau a Swyddogion o fewn y cyngor yn manteisio ar y cynllun hefyd. Ychwanegwyd y byddai rhaglen hyfforddi'n cael ei chyflwyno dros yr haf er mwyn i bobl allu dysgu sut i reidio beic.

O ran perfformiad busnes, nodwyd bod rhai gweithwyr cyflogedig yn yr ardal wedi'u hadleoli i'r gwasanaeth Tracio ac Olrhain i gynnal y llwyth gwaith a bod nifer o drefniadau newydd wedi'u llywio gan TGCh wedi'u cyflwyno; oherwydd canlyniadau cadarnhaol y trefniadau newydd hyn, dywedwyd y byddai'r timau busnes ac ysgrifenyddol yn cael eu hadolygu i nodi a ellid darparu'r gwasanaeth mewn ffordd fwy effeithlon a chynhyrchiol wrth symud ymlaen. Ychwanegwyd y byddai Joy Smith, Rheolwr Diogelwch Ffyrdd a

Pherfformiad Busnes, a goruchwylwyr yn adolygu hyn ac y bydd yr Aelodau'n cael clywed am y newidiadau mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Esboniodd swyddogion fod y tîm Gwasanaethau Parcio wedi'i atal yn ystod cychwyniad y feirws, gan fod gorfodi ar y stryd ac oddi ar y stryd wedi dod i ben dros dro. Cadarnhawyd y byddai gwasanaethau gorfodi parcio ar y stryd yn ailgychwyn ar ddechrau mis Gorffennaf, a gorfodi parcio oddi ar y stryd yn dechrau ar 1 Awst 2020. Ar 1 Medi byddai taliadau a gorfodi'n cael eu hailgyflwyno ym meysydd parcio canol trefi; soniwyd y byddai hyn yn rhoi cymorth ychwanegol i ganol trefi a manwerthwyr adfer ac i ganol trefi ddechrau agor.

Codwyd mater hawlenni parcio rhithwir newydd, gyda Swyddogion yn egluro bod 1,400 o staff a'r holl Gynghorwyr lleol wedi'u cofrestru ar gyfer hyn hyd yma ac o 1 Medi 2020 ymlaen, ni fyddai angen hawlenni papur. Ychwanegwyd y gellid cyfnewid rhifau cofrestru cerbydau ar-lein pe bai nifer o gerbydau'n cael eu defnyddio ac os oedd unrhyw un yn cael anawsterau gyda hyn gallent gysylltu ag Ian Rees, y Goruchwyliwr Gorfodi Parcio.

Hysbyswyd yr Aelodau fod y tîm cyfan a oedd yn rhan o'r Gwasanaeth Cludiant Cymunedol wedi'i ail-leoli i helpu i sefydlu'r ganolfan dosbarthu bwyd a sefydlwyd i gefnogi'r Cynllun 'Safe and Well', sydd wedi bod yn gweithredu drwy gydol y pandemig. Ychwanegwyd y byddai'r sefyllfa warchod ar gyfer preswylwyr sy'n agored i niwed yn cael ei newid ar 16 Awst 2020, ac o'r dyddiad hwnnw ni fyddai pecynnau bwyd yn cael eu darparu mwyach.

Cadarnhaodd swyddogion, pe bai angen i staff fynd i mewn i'r swyddfeydd ar gyfer unrhyw waith hanfodol, fod rota wedi'i sefydlu er mwyn gwneud hyn yn ddiogel a chynnal mesurau pellter cymdeithasol. Soniwyd bod rhai staff cynorthwyol gweinyddol wedi dechrau mynd i mewn i'r swyddfa i roi cymorth i'r Gyfarwyddiaeth.

Diolchodd y Cynghorydd Simon Knoyle i Dave Griffiths, y Pennaeth Peirianeg a Thrafnidiaeth, a gweddill y tîm am y gwaith a gwblhawyd ar y bont a oedd yn cysylltu Glyn-nedd a Chwmgwrach.

Yn dilyn craffu, cytunwyd i nodi'r adroddiad.

Diolchodd y Pwyllgor i'r gwasanaeth Peirianeg a Thrafnidiaeth am eu holl waith caled yn ystod argyfwng COVID-19 a gofynnodd i Dave Griffiths, Pennaeth Peirianeg a Thrafnidiaeth, gyfleu'r neges i'w dimau.

## **CADEIRYDD**

## **Tudalen12**

## PWYLLGOR CRAFFU STRYDLUN A PHEIRIANNEG

(O Bell Trwy Teams)

**Aelodau sy'n Bresennol:**

**Dydd Gwener, 20 Tachwedd 2020**

**Cadeirydd:** Cynghorydd S.M.Penry

**Is-gadeirydd:** Cynghorydd R.W.Wood

**Cynghorwyr:** A.R.Aubrey, C.Galsworthy, J.Hurley, D.Keogh,  
C.J.Jones, W.F.Griffiths, R.Davies a/ac J.Hale

**Swyddogion sy'n**

**Bresennol:** M.Roberts, C.Plowman a/ac A.Lewis

**Gwahoddedigion y Cabinet:** Cynghorwyr E.V.Latham a/ac A.Wingrave

---

### **1. GOFAL STRYDOEDD – Y DIWEDDARAF AM WASANAETHAU A AMLYGWYD YN Y BLAENRAGLEN WAITH**

Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor a oedd yn amlinellu'r pynciau y gofynnodd Aelodau am ddiweddariad arnynt yn dilyn eu Gweithdy Blaenraglen Waith Strydlun a Pheirianneg diweddar; roedd y pynciau hynny'n cynnwys gwastraff ac ailgylchu, adolygu'r potensial i ehangu'r defnydd o orchmynion diogelu mannau agored cyhoeddus (GDMAcCau) a mynwentydd.

#### **Gwastraff ac Ailgylchu**

Gofynnwyd a allai'r gwasanaeth casgliadau swmpus ailgyflwyno'r ail gerbyd a ychwanegwyd at y gwasanaeth dros dro gan fod galw am gasgliadau swmpus ar hyn o bryd a gallai'r cerbyd ychwanegol leihau'r broblem o dipio anghyfreithlon. Dywedodd swyddogion fod un cerbyd wedi bod yn ddigonol o'r blaen, fodd bynnag, oherwydd bod y gwasanaeth wedi'i atal dros dro rhwng mis Mawrth a mis Mai, roedd ôl-groniad o alw am y gwasanaeth yr oedd angen ymdrin ag ef; roedd y pwysau ar y gwasanaeth, yn ogystal ag ymdrin ag absenoldebau sy'n gysylltiedig â COVID-19 a'r ôl-groniad o ran galw, yn golygu bod gan y gwasanaeth griw ychwanegol dros dro i helpu gyda'r casgliadau swmpus. Tynnwyd sylw at y ffaith bod angen i'r

gwasanaeth, cyn penodi rhagor o staff, cael rhagor o gerbydau a pharatoi at gyfrifoldeb cyllidebol parhaol, fod yn sicr o ffactorau fel incwm a gwasanaethau cyflenwi; nodwyd y galw penodol hwn fel galw byr, felly ar hyn o bryd ni fyddai angen dau gerbyd drwy gydol y flwyddyn.

Nodwyd yn yr adroddiad a ddsbarthwyd y bu cynnydd yn y galw am y pecyn ailgylchu yn ystod y pandemig; Gofynnodd yr Aelodau a oedd y cyngor wedi gweld cynnydd yn y ffigurau ar gyfer ailgylchu oherwydd hyn. Nodwyd bod swm yr ailgylchu a gasglwyd ar ymyl y ffordd yn tyfu, er enghraifft y llynedd tyfodd y gwastraff bwyd 600 tonn; fodd bynnag, roedd nifer o ddeunyddiau gwahanol yn effeithio ar berfformiad y cyngor, ac roedd problemau ynghylch ailgylchu'r deunyddiau eraill hyn megis gwastraff coed, a oedd yn effeithio ar lefelau perfformiad. Ychwanegodd Swyddogion fod y ffigurau'n dangos cymysgedd o'r pecyn newydd yn cael ei archebu a phe cyn newydd yn lle hen becyn yn cael ei archebu.

Mewn perthynas â Chynnyrch Hylendid Amsugol (AHP), gofynnwyd a oedd unrhyw gysylltiadau neu systemau ar waith gyda'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Bwrdd Iechyd. Nodwyd bod gan y cyngor wasanaeth hylendid ar waith ar gyfer pobl â chyflyrau meddygol yr oedd angen casglu gwastraff penodol iddynt ac nid oeddent yn rhan o gasgliadau'r GIG; cafodd y gwasanaeth ei flaenoriaethu a'i barhau drwy gydol y pandemig a gellid dod o hyd i ragor o fanylion am hyn ar-lein. Cadarnhaodd Swyddogion pe bai angen cysylltu â meysydd gwasanaeth eraill ynghylch y mater hwn y byddent yn hapus i wneud hynny.

Soniodd yr adroddiad fod cyfweiliadau PACE yn cael eu cynnal yn y Canolfannau Dinesig; Gofynnwyd i Swyddogion egluro'r rhain yn fanylach. Eglurwyd bod cyfweiliadau'r Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (PACE) yn cael eu defnyddio i gasglu tystiolaeth droseddol ar gyfer achosion lle'r amheuwyd bod pobl yn cyflawni troseddau amgylcheddol; roedd cyfleusterau wedi'u sefydlu ar gyfer y cyfweiliadau hyn, ond oherwydd COVID-19 nid oedd y cyfleusterau hyn yn ddiogel i'w defnyddio mwyach. Dywedwyd bod y mater hwn bellach wedi'i ddatrys a bod ystafelloedd ar gael yng Nghanolfan Ddinesig Castell-nedd y gallai Swyddogion eu trefnu i gynnal cyfweiliadau sy'n caniatáu ar gyfer cadw pellter cymdeithasol a chynnal asesiadau risg.

Adolygiad o'r potensial i ehangu defnydd Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus (GDMACau)

Hysbyswyd yr Aelodau ei bod yn bosib ehangu cwmpas GDMACau; nododd yr adroddiad y manylion gan gynnwys yr hyn yr oeddent a'r hyn y gallent ei gwmpasu, gan gynnwys yr hyn y byddai angen ei wneud o ran nodi blaenoriaethau ac adnoddau i'w datblygu.

Dywedwyd y byddai angen i Aelodau benderfynu sut yr hoffent ddatblygu GDMACau, er enghraifft lle'r oeddent yn teimlo bod cyfle i ymestyn y cwmpas neu os oedd mater penodol yr oedd angen ei ddatrys a oedd yn cael ei drafod ar hyn o bryd; fodd bynnag, byddai angen ystyried y pwyntiau a nodir yn yr adroddiad cyn iddynt gael eu datblygu.

Cafwyd trafodaeth am GDMACau posib ar gyfer meysydd parcio sy'n eiddo i'r cyngor, yn enwedig y meysydd parcio ger y traeth, gan fod Aelodau wedi derbyn nifer o gwynion gan breswylwyr ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y meysydd parcio hyn; gofynnwyd a fyddai'n fuddiol sefydlu GDMAC cyffredinol ar gyfer pob maes parcio sy'n eiddo i'r cyngor ar yr un pryd. Cadarnhawyd y gellid rhoi gorchmynion ar waith ar draws y Fwrdeistref Sirol ar gyfer mannau cyhoeddus, gan gynnwys y rhai nad oeddent ar dir y cyngor.

Dywedodd swyddogion y byddai angen ystyried y ceisiadau'n fanwl ac y byddai'n ofynnol yn ôl y gyfraith gynnal ymgynghoriad gan y byddai angen cyfiawnhau'r materion yr oedd Aelodau'n bwriadu mynd i'r afael â hwy, a byddai angen i'r cyfyngiadau posib fod yn rhesymol ac yn gymesur; byddai angen gwneud gwaith ymchwil mewn perthynas â'r hyn a oedd yn bosib neu beidio. Soniwyd mai'r Pennaeth Peirianeg a Thrafnidiaeth (Dave Griffiths) oedd yn gyfrifol am bob maes parcio, felly byddai angen iddo gael ei gynnwys yn fawr yn y broses.

Mynegwyd pryderon ynghylch y problemau posib a allai godi pe bai GDMACau yn cael eu cyflwyno ar draws holl feysydd parcio'r cyngor, er enghraifft diogelwch staff y cyngor a oedd ar hyn o bryd yn monitro'r GDMAC sydd ar waith yng nglan môr Aberafan; roedd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn fater i'r heddlu, p'un a oedd GDMAC ar waith ai peidio. Awgrymwyd y byddai Swyddogion, ar ran y Pwyllgor, yn gofyn i'r Tîm Ymddygiad Gwrthgymdeithasol corfforaethol godi'r mater o ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn meysydd parcio ar draws y Fwrdeistref Sirol mewn cyfarfod y Grŵp Partneriaeth Diogelwch Cymunedol yn y dyfodol; soniwyd bod yr Heddlu'n mynychu'r cyfarfodydd, felly gellid cael eu hadborth ar yr hyn a fyddai'n angenrheidiol ac yn gyfiawn yn eu barn nhw.

Gofynnwyd i Swyddogion a fyddai gwybodaeth am y GDMACau presennol yn cael ei harddangos ar wefan y cyngor, gan esbonio i'r

cyhoedd pam eu bod ar waith ynghyd â chynghor y Swyddfa Gartref. Nodwyd bod y GDMACau sy'n bodoli ar hyn o bryd o amgylch glan môr Aberafan wedi'u hadnewyddu'n ddiweddar a bod proses ymgynghori lawn wedi'i chynnal, a oedd yn cynnwys y cyhoedd; Roedd y Cabinet wedi cytuno iddynt gael eu hymestyn am dair blynedd arall a gellid dod o hyd i'r manylion ar wefan y cynghor.

Nodwyd yn yr adroddiad a ddisbarthwyd nad oedd y cyfyngiadau'n berthnasol i bobl anabl fel y'i diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 os yw'r person yn dioddef o anabledd a fyddai'n ei atal rhag casglu baw cŵn; Tynnodd yr Aelodau sylw at y ffaith bod llawer o bobl oedrannus ddiamddiffyn nad oeddent wedi'u cofrestru'n anabl a oedd yn ei chael hi'n anodd casglu eu baw cŵn, a gofynnodd a oedd y mater hwn wedi'i gynnwys yn y Ddeddf. Nodwyd bod y geiriad a gynhwyswyd yn yr adroddiad y enghraifft gan Gyngor Pen-y-bont ar Ogwr a bod y geiriad yn berthnasol i'r cyfyngiad yr oedd ganddyn nhw ar waith; pe bai Aelodau'n penderfynu ymchwilio i GDMACau newydd, gellid ystyried y mater hwn wrth symud ymlaen.

Awgrymwyd y gallai Aelodau godi unrhyw faterion neu wneud unrhyw geisiadau ynglŷn â GDMACau yn y cymorthfeydd Gofal Stryd sydd ar y gweill.

Mynwentydd

Roedd y siart galw am gladdu a gynhwyswyd yn yr adroddiad yn dangos gostyngiad mawr (-20) wrth gymharu â Gorffennaf 2019 i Orffennaf 2020; Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw reswm penodol dros hyn. Cadarnhaodd swyddogion fod lefelau claddedigaethau wedi cynyddu a gostwng dros y blynyddoedd yn hanesyddol, ac efallai bod mwy o bobl yn dewis amlosgi yn lle.

## 2. **BLAENRAGLEN WAITH 2020-21**

Nododd yr Aelodau'r Blaenraglen Waith Craffu Strydlun a Pheirianeg ar gyfer 2020/21, a boblogwyd gan y Pwyllgor yn eu Gweithdy Blaenraglen Waith diweddar.

Soniodd yr Aelodau y byddai rhai gwasanaethau megis gorfodi a gwastraff yn llawer mwy effeithiol pe baent yn cael eu huno gan y gallai hyn annog mwy o gysylltu o fewn y gymuned. Cadarnhawyd bod Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio (Nicola Pearce) wedi gofyn i'r Pennaeth Gofal Stryd (Mike Roberts) a Phennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (Ceri Morris) edrych ar y rhyngwyneb rhwng rheoli plâu ac iechyd yr amgylchedd a phenderfynu a ddylid dod â'r



ddwy elfen hynny at ei gilydd; mae'r trafodaethau hyn yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd.

3. **BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET**

Darparwyd Blaenraglen Waith y Cabinet i'r Aelodau at ddibenion gwybodaeth; Nodwyd y Blaenraglen Waith.

**CADEIRYDD**

Mae'r dudalen hon yn fwriadol wag



Cyngor Castell-nedd Port Talbot  
Neath Port Talbot Council

## **NEATH PORT TALBOT COUNTY BOROUGH COUNCIL**

### **Streetscene & Engineering Scrutiny Committee** 22<sup>nd</sup> January 2021

**Joint Report of the Head of Engineering & Transport  
(David W. Griffiths), the Head of Streetcare (Michael Roberts) and the  
Head of Property and Regeneration (Simon Brennan)**

**Matter for:** Information

**Ward Affected:** All

**NPT's Electric Vehicle Infrastructure, implementation plans and an overview of the wider strategy for public charging in the County Borough.**

#### **Purpose of the Report:**

1. To inform Members of future Electrical Vehicle (E.V) Infrastructure at Local Authority sites to cater for the increasing number of E.V's within the Council's fleet. To further inform Members of the wider strategy being developed by NPT in conjunction with our regional partners.

#### **Executive Summary:**

2. Members will be aware of the concerns over global warming and the increasing need to reduce greenhouse gases along with national and local air quality issues. One of the ways to reduce carbon emissions is to replace fossil fuel vehicles with Ultra Low Emission Vehicles (ULEVS).
3. ULEVS are defined as vehicles that use low carbon technologies and emit less than 75g of CO<sub>2</sub>/km from the tailpipe.
4. As the profile of the Council's fleet begins to move toward E.V's and in the future possibly Hydrogen for the larger vehicles, then so too does the method of fuelling the vehicles need to be updated. This

infrastructure needs to be suitable to service the expanding fleet at present, but must also be designed to enable its evolution over time to meet a rapidly changing technological environment associated with low emission vehicles.

5. Currently the Council has had two charging points in the Service Response Centre compound for a number of years. This enables four vehicles to be charged at any one time. However, with the increasing number of E.V's being procured for the Council fleet it was identified that further charging points would be needed to cater for the increase in demand.

**Background:**

6. The U.K Government's 2018 Road to Zero Strategy outlines how it will support the transition to zero emission road transport and reduce emissions from conventional vehicles during the transition. Since the Strategy was published the Government has increased its ambitions, by announcing plans to end the sale of petrol and diesel cars by 2030, and hybrids by 2035.
7. Correspondingly the Council has started to increase the number of E.V's on its fleet, currently this mainly comprises of cars and small vans, although there are aspirations to look at larger vehicles converting to ULEV going forward.
8. The Council currently has 9 Battery Electric Vehicles (BEV's) and up to a further 17 vehicles expected by 2024 albeit this number may grow on the back of ongoing national initiatives. Below is a chart which provides some idea of the charging time for vehicles depending on which charging units are installed.

<b>Miles of range added per hour of charging</b>				
<b>3.7kW slow</b>	<b>7kW fast</b>	<b>22kW fast</b>	<b>43-50kW rapid</b>	<b>150kW rapid</b>
Up to 15 miles	Up to 30 miles	Up to 90 miles	Up to 90 miles in 30 mins	Up to 200 miles in 30 mins

9. The previously installed charging points are 7kW which are suitable for current applications and are suitable for expansion in respect of smaller vehicles.
10. A further six 7kw charging points will need to be installed at The Quays increasing the capacity to charge sixteen vehicles at the site. There will also be a 50kw charging unit to allow for the charging of larger vehicles.
11. It is also planned to install an initial phase of charge points at Tregelles Court, Port Talbot Civic, and Tawe Terrace along with a point at Gnoll Country Park for vehicles used within the estate.
12. To future proof the capability of converting the fleet from fossil fuelled vehicles to E.V's, an area of land has been identified at The Quays which will allow for the further expansion of the charging capacity as the need arises. Appendix (a)
